Senedd Cymru
**Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu**
—
Welsh Parliament
**Culture, Welsh Language and Communications Committee**

Dafydd Elis-Thomas AS,

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

17 Rhagfyr 2020

Annwyl Dafydd,

Dyma atodi copi dan embargo o Adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu ar ein hymchwiliad – 'Clyw fy nghân: Ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw'. Cyhoeddir yr adroddiad gyhoeddi yfory; bydd dan embargo tan 00:01. Bydd y copi dan embargo o'r adroddiad hwn hefyd yn cael ei rannu heddiw â'r cyfryngau a'r rhai a roddodd dystiolaeth.

Edrychaf ymlaen at gael ymateb ffurfiol gennych, 30 diwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr hwn, ar yr argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru:

Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion am eich cyfraniad i'r ymchwiliad pwysig hwn ac edrychaf ymlaen at weithio gyda chi i sicrhau bod ein hargymhellion yn cael eu gweithredu.

Yn gywir,

**Helen Mary Jones**

Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDGCh@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddCWLC@senedd.wales
0300 200 6565

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/DET/0324/21

Helen Mary Jones AS
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

4 Chwefror 2021

Annwyl Helen,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Rhagfyr lle gwnaethoch rannu adroddiad y Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu, Clyw fy nghân: Ymchwiliad i'r diwydiant cerddoriaeth fyw. Amgaeaf ein hymateb ysgrifenedig i'r adroddiad.

Wrth ystyried yr ymateb i'r ymchwiliad, mae swyddogion wedi cynnal nifer o gyfarfodydd cadarnhaol gyda rhanddeiliaid allweddol, sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth ddechrau alinio uchelgais rhanddeiliaid yn y ffordd yr ydym yn tyfu'r sector cerddoriaeth fyw. Yn ystod y trafodaethau hyn, mae rhanddeiliaid wedi codi nifer o sylwadau ychwanegol a allai fod yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor wrth gynnal unrhyw ymchwiliadau pellach i'r diwydiant cerddoriaeth fyw yng Nghymru:

- Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar gerddoriaeth fyw. Mae'n bwysig cydnabod a chefnogi seilwaith ehangach y sector megis stiwdios recordio, mannau ymarfer, labeli, hyrwyddwyr, sy'n cefnogi perfformio cerddoriaeth fyw;

- Dylid rhoi ystyriaeth bellach i faterion cydraddoldeb ac amrywiaeth, gan gynnwys cyfeiriad at ymgyrch Mae Bywydau Du o Bwys ac mwy o gydbwysedd rhwng y rhywiau o'r rhai a gafodd eu cyfweld;

- Byddai'r ymgynghoriad wedi elwa ar gyfweld â cherddorion, gan mai hwy yw asgwrn cefn y diwydiant cerddoriaeth fyw;

- Er nad oedd Cytundeb Masnach a Chydweithio yr UE-DU wedi'i gwblhau pan oedd yr ymchwiliad yn cael ei gynnal, byddai wedi bod yn syniad da i ystyried yr effaith bosibl

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ar y diwydiant cerddoriaeth wrth i’r DU ymadael â'r UE. Mae gallu cerddorion o’r DU i berfformio yng ngwledydd yr UE bellach yn peri pryder mawr i'r diwydiant.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism